

RHIF RISG	RHANBARTH OL neu LEOL	CRYNODEB	BLAENORIAETH GwE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRWYDD RISG	EFFAITH RISG	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
1	Rh	Cyllidol	IGYD	Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.	U	U	2A	Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb.	U	2B	RhG / RhB	Gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn achlysurol. Ymgynghori gyda phrif swyddogion yr awdurdodau o ran effaith unrhyw doriadau ariannol potensial.
2	Rh	Cyllidol / Busnes	IGYD	Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. Gall toriadau a newidiadau sylweddol yn y Grant Gwella Addysg yn 2018/19 & 2019/20 effeithio ar gyflymder a gweithredu'r Cynllun Busnes Strategol yn ogystal ag effeithio ar gyllideb ysgolion.	U	U	2A	Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Gweithir yn agos gyda LIC i fwydo i'r sefyllfa gyllidol am y tair blynedd nesaf. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Cynllun cyllideb tymor canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwaith modelu ariannol yn cael ei wneud i lywio penderfyniadau.	U	2B	RhG / RhB / Bwrdd Rheoli	Gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn achlysurol. Ymgysylltu gyda swyddogion LIC, aelodau Cabinet addysg a phenaethiaid addysg yr awdurdodau, i geisio cael gwell eglrder a sicrwydd o ran arian grant penodol. Trafodaethau i'w cynnal yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli.
4	Rh	Safonau	B1/B2	Anawsterau recriwtio gweithlu addysgu cymwys o ansawdd uchel o fewn ysgolion yn y rhanbarth, sy'n cael effaith ar safonau ym mhob pwnc megis Saesneg a mathemateg.	U	U	2A	Ymgynghorwyr Her pynciol mewn swydd gyda Chynlluniau Busnes Lefel 3 cyfatebol ar gyfer gweithredu'r ymgyrch recriwtio #DarganfodAddysgu ar waith. Gwaith ar y gweill i wella'r ddarpariaeth AGA ar draws y rhanbarth - Partneriaeth Addysg Athrawon Gogledd Cymru.	C	2C	RhG / CC	Partneriaeth Addysg Athrawon Gogledd Cymru (CaBan) i sicrhau rhaglen ddysgu broffesiynol effeithiol i ddarparwyr AGA ar draws y rhanbarth.

5	Rh	Safonau	B1/B2	Agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, ddim yn cael eu cynnwys a'u gweithredu yn llwyddiannus . Ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru a datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygiadau'r cwricwlwm yn gyfyngedig ac yn creu ansicrwydd yn yr ysgolion. Newidiadau Cwricwlwm a chymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion	U	U	2A	Uwch Arweinydd a thîm Cwricwlwm i Gymru yn weithredol. Arweinwyr portffolio hefyd mewn swydd. Gweithgaredd ymgysylltu sylweddol wedi'i chynnal ac ar y gweill. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Mae pob clwstr ar draws y rhanbarth wedi penodi arweinydd clwstr CiG. Hyfforddiant ar CiG a Rheoli newid. Tîm wedi gweithio ar adnoddau a chynnal gweithdai i gefnogi ysgolion wrth edrych ar y 4 diben. Holl gynllunio GwE yn croesgyfeirio at 4 diben Cwricwlwm i Gymru. Rheolwr Prosiect yn ymwneud a'r Rhaglen Drawsnewid wedi ei phenodi, yn benodol yn ymwneud efo'r Gymraeg ac ADY. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Rheoli Prosiectau, sydd mewn swydd ers Awst 2018, yn cynorthwyo gyda'r rhaglen Cwricwlwm i Gymru.	C	2C	UDA	Cefnogir Arweinwyr Clwstr CiG yn agos yn unol â'u cynllun clwstr, i sicrhau gwybodaeth ac ymroddiad da gan bob ysgol yn y clwstr. Mae gan GwE 5 aelod o staff sy'n rhan o ddatblygu gwaith arweiniol ar y MDApH i roi mewnbyn ac adborth rheolaidd. Cynnwys adnodd ymwybyddiaeth CiG fel rhan o bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Gweithio rhagor gyda LIC i edrych ar rôl rheoli newid yn genedlaethol. Parhau i ddatblygu'r cynllun rheoli newid i gefnogi ysgolion wrth asesu eu parodrwydd am y cwricwlwm newydd wrth i'r diwygiadau fynd rhagddynt gyda chymorth y dangosfwrdd/Ysgol GwE i bob ysgol allu mesur eu parodrwydd yn erbyn cerrig milltir
6	Rh	Safonau	B3	Anawsterau recriwtio Penaethiaid ar draws y rhanbarth/Recriwtio arweinyddiaeth o safon ar bob lefel.	C	C	2C	Cyflwyno CPCP a Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth i gynnwys rhaglenni ar gyfer darpar arweinwyr a phenaethiaid. Ymgyrch #DarganfodAddysgu yn mynd rhagddi. Rhaglen Darpar Benaethiaid i'w chyflwyno o dymor yr Hydref ymlaen. Proses ymgeisio am CPCP wedi ei chwblhau, y broses ardystio i'w chwblhau.	C	2D	RhG / CC	Cydweithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol ac is-grŵp arweinyddiaeth y consortia ar sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel.
7	Rh	Safonau	I GYD	Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.	U	U	2A	Is-grŵp Cyllid yn gweithio gydag ysgolion i leihau effaith. Mae'r effaith hefyd yn cael ei liniaru gan yr arian ychwanegol i ysgolion i ddatblygu'r Cwricwlwm newydd dros 2 flynedd.	C/U	2B / 2C	All	
8	Rh	Busnes	I GYD	Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol	U	U	2A	Adolygu strwythur atebolrwydd a phrosesau rheoli perfformiad. Adolygiad i'r defnydd o'r GGA wedi ei gynnwys fel rhan o'r Cynllun Busnes Ariannol Lefel 3.	U	2B	Bwrdd Rheoli	Cynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad i Fwrdd Rheoli GwE (haf / hydref 2018).
9	Rh	Llywodraethu/ Safonau	B6	Ansicrwydd am gyfeiriad elfennau o fewn y Model Cenedlaethol yn y dyfodol.	C	C	3A	Aros am adolygiad gan Lywodraeth Cymru. Adolygiad o'r strwythur atebolrwydd a rheoli perfformiad mewn lle. Gwasanaeth wedi ei ail-strwythuro a model arweinyddiaeth ddosranedig ar waith - yn sicrhau bod y gwasanaeth yn fwy parod i addasu pan fydd newid.	C	3B	Bwrdd Rheoli	Gweithredu a rheoli unrhyw newid yn llawn.
10	Rh	Llywodraethu	B6	Gall newidiadau yn arweinyddiaeth yr awdurdodau effeithio ar y gefnogaeth wleidyddol neu gorfforaethol	C	C	3A	Mae dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r holl awdurdodau a GwE dros gyfeiriad strategol y rhanbarth. Darparu sesiynau briffio a chyfarfodydd i rannu gwybodaeth yn gyson gydag aelodau newydd (yn ogystal â'r cyfarfodydd Cyd-bwyllgor ffurfiol).	C	3B	CA / RhG	Parhau i sicrhau bod llwybrau cyfathrebu yn glir a thryloyw.
11	Rh	Safonau	B1/B4	Nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD.	C	C	3A	Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol mewn swydd. Adolygiad o'r GDD wedi ei gwblhau a chynllun gweithredu ar waith. Cydlynnydd Rhanbarthol GDD Plant mewn Gofal wedi ei phenodi	C	3B	YLIRh	Gweithredu'r camau o fewn y cynllun busnes a monitro cynnydd drwy gyfrwng y strwythur rheoli perfformiad newydd.

12	Rh	Busnes	B1/B3	Nid oes gan lywodraethwyr y wybodaeth na'r sgiliau angenrheidiol i weithredu fel cyfeillion beirniadol.	U	U	2B	Adolygu strwythur atebolrwydd a rolau'r rhwydweithiau rhanbarthol. Cynllun Busnes Lefel 3 ar waith. Arweinydd Portffolio GwE i Lywodraethwyr bellach mewn swydd. Offeryn Hunan Arfarnu i Lywodraethwyr bellach ar y we, ac yn cael ei gyflwyno.	C	2C	Bwrdd Rheoli	Dwy gynhadledd wedi ei drefnu i holl aelodau cyrff llywodraethu ar 'sut i fod yn gyfaill beirniadol' ynghyd â chyflwyniadau i ysgolion.
13	Rh	IGYD	IGYD	Nid yw'r cyfeiriad strategol yn adlewyrchu barn Plant a Phobl Ifanc y rhanbarth	C	I	4D	Darparu cyfleoedd i Ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner i arddangos arferion Llais y Disgybl - 15% o Ysgolion Arloesi wedi arddangos gwaith lle mae Llais y Disgybl wedi bod yn nodweddiadol.	I	4E	RhG	Gweithredu of fewn Cynllun Busnes Cwricwlwm i Gymru o ran Llais y Disgybl
14	Rh	Safonau	B1	Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MAT mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	U	C/U	2A	Ailstrwythurwyd rolau allweddol yn GwE a phenodwyd Uwch Arweinydd Uwchradd i arwain tîm uwchradd rhanbarthol a gweithredu model cefnogaeth a her newydd. Adolygwyd strwythurau atebolrwydd a'u cryfhau ar lefel ranbarthol a lleol. Canlyniad hyn yw bod mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth a mwy o atebolrwydd gweithredol o fewn y gwasanaeth, ac ar draws yr AauL. Proffil rhanbarthol uwchradd Estyn wedi gwella'n sylweddol.	C	2B/2C	Bwrdd Rheoli	Parhau i weithredu ac arfarnu'r model uwchradd newydd. Sicrhau atebolrwydd cadarn ar lefel ranbarthol a lleol. Erys pryderon am effaith llawn y gwaith ar ganlyniadau CA4 2018. Ansefydlogrwydd yn y tîm uwchradd yn parhau - yn dal yn rhy ddiabynnol ar secondiadau tymor byr a chyfraniadau gan ymgynghorwyr annibynnol.
15	Rh	Safonau	B1	Cyfradd gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach na hwnnw ar lefel genedlaethol.	U	C	2A	Cynnig pecyn cefnogaeth i bob awdurdod, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a darpariaeth dda, a disgywiliadau a safonau uchel yn y CS. Adnabod ysgolion sy'n perfformio'n gyson isel a'r rheiny mewn perygl. Targedu cynhaliadau i'r ysgolion hyn a chlystyrau o ysgolion. Cytundeb gan yr holl ALL i gynyddu'r capasiti o fewn GwE i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen - 1 Ymgynghorydd Her mewn swydd o Fedi 2017 a 2 yn rhagor o fis Ionawr 2018 i fonitro perfformiad ysgolion unigol a'u targedu fel y bo angen. Cynhaliwyd cyfres o weithdai cymedroli CS.	C	2C	UA-C	Parhau i fonitro perfformiad ysgolion unigol, a'u targedu yn ôl yr angen. Parhau gyda sesiynau cymedroli'r Cyfnod Sylfaen ar draws y rhanbarth.

17	Rh	Safonau	B1	Rhoi ysgolion uwchradd mewn categori Statudol Estyn.	U	U	2A	<ul style="list-style-type: none"> nifer o ysgolion mewn categori statudol wedi gostwng i 4 ysgol uwchradd (7.4%). 2 ysgol wedi eu tynnu o categori yn ddiweddar yn dilyn cynnydd cadarn. o'r 4 sy'n parhau mewn categori statudol, cynnydd boddhaol i'w weld mewn 1 ohonynt a phosibilrwydd o gael eu tynnu allan yn y gwanwyn. Mae cynnydd yn y 3 ysgol arall yn gyfyngedig ac mae gwaith sylweddol pellach i'w wneud i sicrhau y gwelliannau angerheidiol Yn ychwanegol i'r ysgolion 'categori statudol' mae 8 ysgol uwchradd ranbarthol wedi'u hadnabod fel rhai 'risg uchel' h.y. posibilrwydd cryf iawn o categori statudol. Mae 2 o'r ysgolion hynny newydd gael eu hysbysu bod arolygiad i'w gynnal yno cyn y Nadolig felly rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu unwaith eto o 4 i 6 ysgol mewn categori statudol. Mae rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth dwys iawn yn weithredol yn yr ysgolion hyn a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr YCG cyswllt. Ble dyrchefir pryderon, rhennir yr wybodaeth gyda swyddogion yr ALI trwy gyfrwng y Byrddau Ansawdd. 	U	2B	RhG/CC/Uwch Arweinwyr	Sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael sylw cadarn mewn cynlluniau cefnogaeth. Sicrhau bod AauLI yn gweithredu'n gadarn ac yn syth mewn ysgolion ble rhannwyd pryderon am gyflymder y cynnydd.
18	Rh	Safonau	I GYD	Dysgu ôl-16 - Gall mesurau perfformiad newydd a'r angen i gonsortia addysg rhanbarthol roi mwy o bwyslais ar berfformiad y chweched dosbarth (yn eu rôl 'herio a chefnogi' i ysgolion, a defnyddio dull 'traws awdurdod' i yrru gwelliannau a sicrhau cysondeb yn genedlaethol) amharu ar bwyslais consortia rhanbarthol ar safonau mewn addysg cyn-16.	C	U	2C	Adnabod arweinydd portffolio. Cynllun Busnes lefel 3 ar waith. Cytuno ar dull gweithredu rhanbarthol o ran casglu data, cytuno ar raglen hyfforddi, pob YCG cyswllt yn yn rhoi sylw i berfformiad ôl-16 fel rhan o ymweliadau monitro. Perthynas waith dda gyda chydlynwyr 14-19. Nifer o ysgolion yn rhanb arth yn cymrd rhan mewn adolygiad thematig ôl-16 Estyn.	C	2D	Bwrdd Rheoli/RhG	Parhau i weithredu Cynllun Busnes lefel 3. Sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth ymhellach a sicrhau strwythurau a phrosesau mwy effeithiol ar gyfer rhannu'r arferion gorau.
21	Rh	Busnes	B3/6	Amrywiaeth yn y gefnogaeth AD a ddarperir i ysgolion ar draws y rhanbarth	C / U	C / U	3A	Cynllun busnes AD lefel 3 ar waith er mwyn cydlynu gweithgaredd ar lefel rhanbarthol. Angen sicrhau cefnogaeth AD ranbarthol gyson ac o safon uchel i ysgolion.	C	3B	Bwrdd Rheoli	Monitro gweithrediad y Cynllun Busnes AD Lefel 3 drwy'r strwythur atebolrwydd a rheoli perfformiad diwygiedig. Y Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno'n effeithol.